**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1400
Ein cyf/Our ref EM/00166/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

11 Mawrth 2024

Annwyl Jack,

**Deiseb P-06-1400 Adnoddau Teg a Digonol ar gyfer Practisau Cyffredinol yng Nghymru**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 18 Ionawr ynghylch y ddeiseb uchod.

Rwy'n ddiolchgar am ymdrechion parhaus pawb sy'n gweithio mewn ymarfer cyffredinol i ddarparu gofal o ansawdd uchel yn wyneb y galw di-baid ar eu gwasanaethau. Gwyddom fod dros 1.5 miliwn o bobl yn defnyddio gwasanaethau meddygon teulu ar draws Cymru yn gyson bob mis.

Ar 7 Chwefror, roeddwn yn falch o gyhoeddi bod trafodaethau contract y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) ar gyfer 2023-24 wedi dod i ben ac, er gwaethaf yr heriau ariannol a'r cyfyngiadau cyllidebol, y bydd canlyniad y trafodaethau hyn yn golygu y bydd buddsoddiad o £20 miliwn mewn ymarfer cyffredinol yng Nghymru, sef y lefel uchaf o fuddsoddiad ers blynyddoedd. Bydd y canlyniad pragmatig hwn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i bractisau ac, yn bwysig iawn, bydd y buddsoddiad yn cynnwys cynnydd o 5% i gyflogau ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis - gan gynnwys meddygon teulu, nyrsys practis a staff gweinyddol.

Rwy'n ymwybodol bod Deiseb y Senedd uchod wedi casglu nifer o lofnodion, gan ddangos cryfder y teimladau ynghylch cynaliadwyedd Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ac adnoddau ymarfer cyffredinol yng Nghymru.

Mae'r ddeiseb yn nodi bod Ymgyrch BMA Cymru, Achubwch ein Meddygfeydd, yn tynnu sylw at faterion gweithlu a chapasiti sydd wedi bodoli ers amser, a bod angen eu datrys er

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

mwyn sicrhau bod ymarfer cyffredinol yn gynaliadwy yn y dyfodol.  Fodd bynnag, ni allwn ddatrys y materion hyn drwy gytundeb cyflog a chontract ar gyfer un flwyddyn yn unig. Rydym wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y BMA a GPC Cymru, i ddatblygu atebion strategol.

Er y bydd dadl ar y materion hyn yn ymdrin â sawl ystyriaeth ynghylch lefelau cyllid mewn ymarfer cyffredinol, a gofal sylfaenol a chymunedol yn ehangach, rhaid i'r ddadl fod yn effro i'r cyfyngiadau ariannol presennol. Mae'r pwysau digynsail ar gyllidebau eleni wedi golygu bod angen gwneud penderfyniadau anodd ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru ac o fewn y gyllideb iechyd a gofal. Roedd Cyllideb Ddrafft 2024-25 yn amlygu'r ffaith nad yw'r setliad cyllido ar gyfer y flwyddyn i ddod yn ddigon i ymateb i'r pwysau eithriadol sy'n ein hwynebu ni yma yng Nghymru. Yng ngoleuni'r cyfyngiadau ariannol parhaus, mae angen inni gynnal sgwrs agored ar sut y gallwn sicrhau bod gwasanaethau gofal sylfaenol mor effeithiol ac integredig â phosibl er mwyn gwella canlyniadau i bobl Cymru.

Drwy ein Model Gofal Sylfaenol i Gymru, rydym eisoes wedi cymryd camau i leihau'r galw ar feddygon teulu. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno gwasanaeth 111 GIG Cymru a chynyddu'r ystod o wasanaethau y gall fferyllwyr cymunedol eu darparu. Bydd ein buddsoddiadau mewn gofal cymunedol, er enghraifft £5m i gynyddu'r gweithlu proffesiynol perthynol i iechyd ac £8.24m i gynyddu'r gweithlu nyrsio cymunedol, yn golygu bod mwy o gymorth ar gael i feddygon teulu drwy dimau adnoddau cymunedol.

Rydym wedi buddsoddi £12 miliwn dros gyfnod o dair blynedd i alluogi practisau i adeiladu ar eu capasiti drwy gael staff ychwanegol, ac rydym yn gweld cynnydd yn nifer y nyrsys a'r staff gofal cleifion uniongyrchol a gyflogir mewn practisau cyffredinol, er mwyn helpu cleifion i gael mynediad at ofal. Bydd y Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol Unedig newydd hefyd yn helpu i leihau biwrocratiaeth a rhyddhau mwy o amser i feddygon teulu weld cleifion.

Mae ein dull gweithredu, sy'n seiliedig ar bartneriaethau cymdeithasol cryf, yn darparu sail ar gyfer ymgysylltu'n barhaus â BMA Cymru Wales. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r proffesiwn meddygon teulu i ddatblygu atebion i faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu a chynaliadwyedd er mwyn diogelu ymarfer cyffredinol ar gyfer y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services